Friends of the Earth Cymru

# Tir halogedig yng Nghymru

## Crynodeb Cyfeillion y Ddaear Cymru

### Ein cefndir

Mae Cyfeillion y Ddaear Cymru wedi ymrwymo i ddiogelu'r amgylchedd a hyrwyddo dyfodol cynaliadwy i Gymru. Rydym yn rhan o'r sefydliad ymgyrchu amgylcheddol mwyaf dylanwadol yn y DU sy'n rhan o'r rhwydwaith amgylcheddol mwyaf helaeth yn y byd, gyda dros 75 o sefydliadau cenedlaethol ar draws pum cyfandir. Rydym yn cefnogi rhwydwaith unigryw o grwpiau lleol sy'n ymgyrchu mewn cymunedau ledled Cymru.

### Crynodeb

Diolch i nifer gynyddol o straeon cyfryngau, rhaglenni dogfen, podlediadau a dramâu dogfen fel Toxic Town Netflix, mae pobl yng Nghymru yn dod yn fwyfwy ymwybodol o ganlyniadau niweidiol ein hetifeddiaeth wenwynig. Ond, oherwydd diffyg cyllid, adnoddau ac arbenigedd, a materion eraill heblaw hynny, nid yw tir halogedig yn cael ei nodi, ei asesu a'i adfer. Dyna pam mae Cyfeillion y Ddaear yn galw am fwy o gyllid, gwybodaeth well, deddfwriaeth gryfach, a rheoleiddio gwell i ddiogelu iechyd pobl ac iechyd y byd naturiol.

### Cwmpas a graddfa'r broblem halogiad

Mae graddfa problem halogiad Cymru yn bryderus o aneglur, er gwaethaf dros dair degawd o astudiaethau. Mor gynnar â 1988, nododd arolwg gan Uned Ymgynghorol Amgylcheddol Prifysgol Lerpwl ar gyfer y Swyddfa Gymreig 749 o safleoedd halogedig yng Nghymru[1]. Erbyn 2013, nododd arolwg o awdurdodau lleol gan Gyfoeth Naturiol Cymru yn 2013 fwy na 10,300 o safleoedd halogedig – gan ganfod Benso(a)pyren, plwm, ac arsenig mewn dros 60% o'r rhain.

Datgelodd ymchwil gan Gyfeillion y Ddaear Cymru yn 2025 dros 45,000 safle o halogiad posibl, yn cynnwys hen ardaloedd diwydiannol, safleoedd tirlenwi a chwareli[2]. Ymhlith y safleoedd hyn mae o leiaf 1,300 o fwyngloddiau metel gwag a dros 1,500 o safleoedd tirlenwi segur.[3] Os caiff cyfraddau halogiad posibl a risg a ganfuwyd gan Gyfeillion y Ddaear eu hailadrodd ar draws holl awdurdodau lleol Cymru, gallai hyn gyfateb i dros 90,000 o safleoedd posibl y mae angen eu dosbarthu a'u hymchwilio.

Mewn ymateb i ymgynghoriad ar dir halogedig Llywodraeth Cymru yn 2013, canfuwyd bod "Diffyg data ar lefel Genedlaethol yn rhwystro gallu Llywodraeth Cymru i ddeall maint a natur tir halogedig ledled Cymru yn sylweddol." Mwy na degawd yn ddiweddarach, nid yw'r sefyllfa wedi gwella. Mae'r Llywodraeth, gwneuthurwyr penderfyniadau lleol a'r cyhoedd yn haeddu

---

[1] Mae'r set ddata wedi ei gwneud yn ddigidol a gellir ei gweld yn yr archifau cenedlaethol.
[2] Mae'r cyfanswm yn cynnwys y rhai a nodwyd gan yr 11 cyngor gyda Strategaethau Halogiad Tir sydd ar gael yn gyhoeddus sy'n cynnwys canlyniadau'r cwmpasu cychwynnol a dau Awdurdod Lleol ychwanegol a ddarparodd y data hwn mewn ymateb i gais gan Gyfeillion y Ddaear.
[3] Canfu data gan Gyfoeth Naturiol Cymru yn 2021, a ddadansoddwyd gan Greenpeace, gemegau peryglus fel nwy mwstard a syanid wedi'u claddu o dan dros 1500 o safleoedd tirlenwi segur ledled Cymru.

cael gwybod cwmpas a graddfa halogiad yn y tir o dan eu traed – a bydd gweithredu effeithiol yn dibynnu ar ddarlun clir o'r broblem.

## Effeithiau a chostau halogiad

**Iechyd:** Mae ymchwil diweddar yn dangos bod 6% o'r boblogaeth yng Nghymru yn byw ger tir sydd wedi'i halogi gan fwyngloddio metel hanesyddol, sy'n gysylltiedig â llygredd plwm. Mae lefelau gwenwynig o blwm wedi'u canfod mewn wyau fferm. Nid oes unrhyw lefel o amlygiad i blwm y gwyddys ei bod heb effeithiau niweidiol. Gall lefelau uchel o blwm arwain at goma a marwolaeth, a gall lefelau is arwain at nam gwybyddol. Mae babanod a phlant ifanc yn arbennig o agored i niwed.

Mae cemegau am byth – sylweddau per- a polyfflworoalkyl (PFAS) a Biffenylau Polyclorinedig (PCBau) – wedi'u cysylltu ag amrywiaeth o broblemau iechyd gan gynnwys risg uwch o ganser, niwed i'r iau, problemau atgenhedlu, a nam ar y system imiwnedd. O ddiwedd y 1960au i'r 1980au, pan ddaeth yn amlwg bod PCBau yn niweidiol, gollyngodd Monsanto y gwastraff gwenwynig hwn mewn chwareli segur mewn cylch 10-15 milltir o amgylch Caerdydd a Chasnewydd. Y llynedd, dangosodd podlediad y BBC, *Buried: the Last Witness* fod lefelau PCBau ger lle cafodd gwastraff gwenwynig ei ollwng yn y gorffennol gannoedd o weithiau'n uwch na'r lefelau cyfartalog.

**Bywyd Gwyllt:** Mae ein hetifeddiaeth ddiwydiannol yn peri bygythiad parhaus i dda byw a bywyd gwyllt, o fwyngloddiau plwm hanesyddol sydd wedi gwenwyno ceffylau a gwartheg yn ystod llifogydd, i gemegau am byth sy'n bio-chwyddo cadwyn fwyd. Canfu ymchwil diweddar fod PFAS ym mhob dyfrgi a brofwyd ledled Cymru a Lloegr, tra bod poblogaeth morfil danheddog y DU dan fygythiad o gwympo yn y 100 mlynedd nesaf oherwydd llygredd PCB. Ar adeg pan fo 1 o bob 6 rhywogaeth mewn perygl o ddiflannu yng Nghymru, mae'n hanfodol ein bod yn mynd i'r afael â llygredd cemegol cyn i ni golli mwy o rywogaethau.

**Economaidd:** Mae gan halogiad metelau trwm ganlyniadau economaidd sydd wedi'u dogfennu'n dda. Canfu ymchwil yng Nglasgow fod plant a oedd wedi'u hamlygu i blwm yn y groth wedi perfformio'n waeth yn eu harholiadau yn 16 oed, wrth i astudiaeth Banc y Byd yn 2023 gysylltu pob microgram o blwm fesul decilitr o waed â gostyngiad o 2 bwynt IQ. I'r dros 200,000 o blant yn y DU sy'n dioddef o halogiad plwm, gyda lefelau plwm yn y gwaed uwchlaw 5µg/dL, gallai hyn gyfateb i ostyngiad o leiaf 20% mewn oes mewn enillion. Mae Banc y Byd hefyd yn nodi bod clefydau cardiofasgwlaidd sy'n gysylltiedig â gwenwyno plwm yn costio 3.8% o gynnyrch domestig gros i wledydd incwm uchel.

## Methiannau'r gyfundrefn tir halogedig

**Strategaethau sydd wedi dyddio ac ar goll:** Rhaid i Awdurdodau Lleol gyhoeddi Strategaeth Arolygu Tir Halogedig, y dylid ei diweddaru bob 5 mlynedd. Datgelodd ein hymchwil i strategaethau arolygu sydd ar gael yn gyhoeddus fod llawer o gynghorau'n methu'n rhannol neu'n llwyr â chyflawni'r gofyniad hwn ac yn dangos loteri cod post brawychus o weithredu a diffyg gweithredu.

Dim ond 15 allan o 22 o gynghorau yng Nghymru oedd i'w gweld yn meddu ar strategaeth o gwbl. O'r rhain, dim ond 4 cyngor (Sir y Fflint, Rhondda Cynon Taf, Sir Gaerfyrddin a Thorfaen) a gynigiodd strategaeth a ddiweddarwyd o fewn y pum mlynedd ddiwethaf. Roedd y strategaeth hynaf yn dyddio'n ôl dros ddau ddegawd, i 2002, tra bod y mwyaf diweddar wedi'i diweddaru yn 2024, gyda chyfartaledd y flwyddyn gyhoeddi yn 2014.

**Diffyg arolygiadau:** Efallai nad yw manylion union y broblem halogiad yn glir, ond mae tystiolaeth sylweddol o filoedd o safleoedd halogedig posibl ledled Cymru (gweler uchod).

Canfu ein hymchwil fod rhai awdurdodau lleol – er enghraifft Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro – wedi nodi miloedd o ddarnau o dir a allai fod wedi'i halogi, ond eto maent yn dangos ychydig iawn o dystiolaeth o gynnydd wrth gategoreiddio neu asesu'r rhain ac nid oes ganddynt lawer o gofnodion neu ddim cofnodion o gwbl ar eu cofrestri cyhoeddus. Nododd dadansoddiad diweddar gan BBC Wales o ddata tir a allai fod wedi'i halogi gan 11 cyngor yng Nghymru 698 o safleoedd 'risg uchel' – gan gynnwys tir y credir ei fod yn cynnwys arsenig a phlwm. Nid yw 84% o'r rhain wedi'u profi gan awdurdodau lleol. Mae hyn yn golygu nad yw'r risg sy'n gysylltiedig â'r safleoedd hyn wedi'i meintioli na'i nodi'n dryloyw, ac ni ellir cynnal adferiad tir.

**Adnoddau annigonol, gweithredu annigonol:** Heb gyllid digonol, mae'n anodd gweld sut y bydd cynghorau'n darparu adnoddau ar gyfer y broses dechnegol ac, yn aml, araf o gategoreiddio a phrofi, heb sôn am adferiad. Mewn ymateb i ymholiad y Pwyllgor Materion Cymreig eleni, nododd y Grŵp Gwaith Halogiad Tir Cymru "Mae Awdurdodau Lleol Cymru yn ymwybodol o lawer o ardaloedd o dir sydd angen asesiad Rhan 2A a phe bai darpariaeth ariannol ddigonol yn cael ei gwneud, byddent yn datblygu eu Strategaethau Arolygu ac yn cwblhau'r asesiadau hynny."

Canfu ymchwil Cyfoeth Naturiol Cymru yn 2016 fod 71% o'r gwaith adfer hyd yma wedi'i ariannu'n bennaf gan Gynllun Cronfa Cyfalaf Tir Halogedig Llywodraeth Cymru cyn iddo gael ei dynnu'n ôl yn 2010/11. Effaith y cymorth ariannol hwn yn crebachu yw gwthio cynghorau tuag at ddibynnu ar ddatblygwyr preifat i gynnal profion ac adferiadau, fel y nodwyd yn adroddiad cwmpasu cynllun datblygu lleol Abertawe 2023-2038: "Mae adfer tir halogedig yn parhau i ddibynnu ar brosiectau ailddatblygu ac er bod rhai ailddatblygiadau wedi'u cynnal yn ystod y blynyddoedd diwethaf, nid yw wedi bod yn bosibl gwirio bod adferiad neu gyfyngiant halogiad wedi'i gwblhau".

**Data cyfyngedig a thryloywder gwael:** Dylai pobl yng Nghymru gael hawl i wybod a ydynt yn byw ger safle gwenwynig a allai niweidio eu hiechyd. Ond ar hyn o bryd, mae gwybodaeth gyhoeddus yn anghyflawn ac yn anodd ei chael.

Mae Deddf yr Amgylchedd 1990 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gynnal cofrestr gyhoeddus o dir halogedig, gan nodi manylion unrhyw hysbysiadau adfer a gyflwynir ar ôl i safle gael ei nodi fel un halogedig. Dylai'r rhain fod ar gael i'r cyhoedd, naill ai ar-lein neu ar gopi caled. O'r 22 cyngor yng Nghymru, dim ond chwech sydd â chofrestr gyhoeddus ar gael ar-lein ar hyn o bryd, gyda dau arall yn cyhoeddi datganiad 'dim cofnodion', a thri yn cynnig cofrestr ar gais yn unig. Nid yw un ar ddeg o awdurdodau yn darparu unrhyw wybodaeth gyhoeddus am safleoedd halogiad o gwbl. Yn dilyn cais Rhyddid Gwybodaeth Cyfeillion y Ddaear Cymru, ymatebodd pedwar o'r un ar ddeg hyn gyda gwybodaeth am halogiad a ddylai fod mewn cofrestr gyhoeddus - ac yn bryderus, nododd un cyngor, a oedd yn datgan bod eu cofrestr yn wag ar-lein, 18 o safleoedd.

Lle mae cofrestrau cyhoeddus ar gael ar-lein, mae rhywfaint o amrywiad yn eu hansawdd a'u defnyddioldeb. Mae pedwar cyngor yn darparu manylion llawn am safleoedd o dan benawdau sy'n gysylltiedig â'r Ddeddf, tra bod dau yn darparu rhestrau o ddogfennau sy'n anodd eu llywio yn unig. Diffinnir y cysyniad o 'safle' yn anghyson - weithiau gan nifer yr eiddo a gynlluniwyd ar gyfer y safle neu sy'n meddiannu'r safle ar hyn o bryd, ac mewn achosion eraill gan nifer yr eiddo neu'r darnau o dir sy'n gyfrifol am yr halogiad. Mewn ymateb i gais Rhyddid Gwybodaeth Cyfeillion y Ddaear, gwnaeth rhai cynghorau yn glir hefyd mai eu harfer yw dileu safleoedd unwaith y cânt eu hystyried wedi'u hadfer.

## Gwybodaeth leol ar gyfer Abertawe

- Nid oes gan Abertawe Strategaeth Tir Halogedig ar gael ar-lein.
- Nid oes gan Abertawe gofrestr gyhoeddus ar-lein o safleoedd halogedig ar gael ar-lein.
- Ni ymatebodd y cyngor i gais Rhyddid Gwybodaeth gan Gyfeillion y Ddaear am y wybodaeth hon.
- Mae ein hadolygiad o wybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd am halogiad posibl yn Abertawe yn awgrymu bod hyd at 290 o safleoedd wedi'u nodi hyd yn hyn.

## Beth sydd angen digwydd nesaf

Ers dros ganrif, mae echdynnu, cynhyrchu a llygredd wedi halogi ein tir, gan beryglu iechyd y cyhoedd a gwenwyno ecosystemau'n araf. Ac eto ers degawdau mae maint y niwed posibl wedi bod yn glir, a llwybrau i lanhau'r difrod wedi'u deall yn dda. Felly mae'n annerbyniol bod miloedd o safleoedd ledled Cymru, o bosibl, yn dal i fod yn wenwynig, a bod y cyhoedd yn dal i fethu â chael mynediad at wybodaeth am y risg na dibynnu ar y systemau a gynlluniwyd i'w liniaru.

Rydym angen:

- **Ymchwiliad cyhoeddus annibynnol i asesu maint ac effaith tir halogedig yng Nghymru** ac adolygu effeithiolrwydd y drefn tir halogedig bresennol.
- **Cofrestr ar-lein sydd ar gael i'r cyhoedd o safleoedd tir halogedig ledled Cymru**, yn cynnwys safleoedd sy'n cael eu harchwilio.
- **Deddfwriaeth a rheoleiddio cryfach ar lefel genedlaethol, i sicrhau bod y drefn tir halogedig yn cael ei gweithredu'n effeithiol ac i fynd i'r afael â llygredd hanesyddol.** Dylai hyn gynnwys diwygio canllawiau statudol 2012 i orfodi awdurdodau lleol i gyflawni dyletswyddau a diwygio'r canllawiau ar dir halogedig ym Mholisi Cynllunio Cymru. Dylai'r Bil Egwyddorion Amgylcheddol a Bioamrywiaeth sydd ar ddod hefyd gynnwys mesurau i fynd i'r afael â llygredd etifeddol o orffennol diwydiannol Cymru.

Ar lefel y DU, rhaid i'r llywodraeth gefnogi ac ariannu Awdurdodau Lleol Cymru'n briodol, fel y gallant gyflawni eu dyletswyddau i nodi ac adfer tir halogedig. Dylai hyn gynnwys cyflwyno rhaglen ariannu briodol a/neu adfer y rhaglen ariannu cyfalaf ar gyfer safleoedd rhan 2a, ymestyn cynllun Cronfa Rhyddhau Tir Llwyd (BLRF) Lloegr yn unig i Gymru, a chlustnodi unrhyw gyllid a ddarperir o dan Fformiwla Barnett.

**Am ragor o wybodaeth: kirsty.luff@foe.co.uk**